Bernadette o Lourdes: 1844–1879

Y wraig yn y goleuni

Gostyngeiddrwydd / ufudd-dod

Beth petaech chi'n mynd am dro i'r wlad? Ar ôl i chi gerdded heibio'r creigiau, dyma chi'n gweld golau disglair. Wrth i chi edrych i'r goleuni rydych chi'n gweld siâp gwraig yn ymddangos. Mae'r wraig yn dechrau siarad efo chi. Petaech chi'n dweud yr hanes yna wrth eich ffrindiau, ydych chi'n meddwl y buasen nhw'n eich credu? Mae'r stori hon yn sôn am ferch ifanc iawn a welodd olau disglair a gwraig yn siarad efo hi.

Geneth dlawd iawn oedd Bernadette. Roedd hi'n byw gyda'i modryb. Roedd ei rhieni'n rhy dlawd i ofalu amdani. Yn ystod y dydd byddai hi'n mynd am dro. Roedd hi wrth ei bodd yn gwylio'r defaid yn y caeau. Ar ôl bod am dro, fe fyddai'n helpu ei modryb i lanhau'r tŷ.

Ar ôl cyfnod yn byw efo'i modryb, fe aeth yn ôl at ei theulu. Roedden nhw i gyd yn byw mewn un ystafell. Seler oedd yr ystafell hon o dan y carchar.

Pan oedd Bernadette yn ferch ifanc aeth am dro i gasglu coed tân. Yn sydyn dechreuodd y gwynt chwythu. Edrychodd i fyny tuag at y graig fawr. Gwelodd olau disglair. Wrth iddi edrych ar y goleuni, gwelai siâp gwraig. Roedd y wraig yn gwenu arni. Roedd ganddi groes yn ei llaw. Penliniodd Bernadette o flaen y goleuni. Ar ôl ychydig funudau roedd y goleuni a'r wraig wedi diflannu.

Yn ystod y misoedd wedyn fe welodd Bernadette y golau droeon. Dywedodd y wraig wrthi un diwrnod, "Y fi ydi Mair, mam Iesu. Rwyf am i ti helpu i adeiladu eglwys yn y lle hwn."

Aeth y stori trwy'r wlad fel tân gwyllt. Roedd pobl yn dechrau ymweld â'r llecyn. Er na welodd neb arall y goleuni, roedd pawb yn credu bod Bernadette yn dweud y gwir. Byddai pobl yn dod â chanhwyllau efo nhw a'u goleuo. Byddai pobl eraill yn penlinio ar y llawr ac yn gweddïo.

Un diwrnod fe gafodd neges gan y wraig yn y golau disglair, "Bernadette, rwyf am i ti chwilio am y ffynnon wrth ymyl yr ogof. Os gwnei di chwilio'n ofalus, fe weli di y bydd dŵr yn tasgu o'r ffynnon."

Daeth rhai o bobl yr ardal i wylio Bernadette yn chwilio am y ffynnon. Aeth ar ei gliniau a bu'n tyrchu â'i dwylo am amser maith. Yn sydyn dyma'r dŵr o'r ffynnon yn tasgu i'r awyr.

Roedd mwy a mwy o bobl yn dod i weld beth oedd yn digwydd. Dechreuodd rhai ddod â phobl oedd yn wael gyda nhw. Roedd eraill yn dod â phiseri efo nhw i godi dŵr o'r ffynnon. Roedden nhw'n gobeithio y byddai'r dŵr yn gwella'r afiechydon.

Erbyn heddiw, mae'r ffynnon hon yn Lourdes yn enwog iawn. Bydd pobl o bob rhan o'r byd yn mynd yno. Pobl wael ydi'r rhan fwyaf o'r rhain. Maen nhw'n mynd yno gan obeithio y byddan nhw'n cael eu gwella. Bob blwyddyn o gwmpas Gŵyl y Pasg bydd cannoedd ar gannoedd o blant yn mynd i Lourdes. Plant sydd yn wael ac yn dioddef ydi'r plant yma. Bu Bernadette farw yn y flwyddyn 1879, ond mae pobl drwy'r byd yn cofio amdani. Hi a welodd fam Iesu yn y goleuni disglair.

"A gweddnewidiwyd ef yn eu gŵydd hwy, a disgleiriodd ei wyneb fel yr haul, ac aeth ei ddillad yn wyn fel y goleuni."

Mathew 17:2

O Dduw, Ein Tad,
roedd y disgyblion
Pedr, Iago ac Ioan
wedi dychryn
pan welsant Iesu
ar Fynydd y Gweddnewid.
A phan glywsant lais Duw
yn dweud,
"Hwn yw fy mab, yr Anwylyd,
ynddo ef yr wyf yn ymhyfrydu,
gwrandewch arno."
Dysg ninnau i sylweddoli
fod yna bethau na allwn ni byth eu deall.
Amen.

Oes raid i ni gael prawf o bob dim sy'n digwydd? Oes yna rai pethau na fedrwn ni mo'u deall a does yna ddim ystyr rhesymol iddyn nhw?